Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Cyngor Blaenau Gwent

# Cymorth a Chyngor Ariannol ar Gostau Byw



## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Taliadau Cymorth y Llywodraeth | 3 - 4 |
| Help gyda Chostau Ynni | 5 - 11 |
| Help gyda Tai | 12 - 14 |
| Budd-daliadau y gallech fod â hawl iddynt | 15 |
| Mynediad i Fwyd | 16 - 18 |
| Taliadau Cymorth arall | 22 - 30 |
| Taliadau Cymorth a Chyngor arall | 31 - 32 |

**Mae costau byw yn cynyddu'n gyflymach ac mae'n prisiau yn codi ynghynt nag y buont ers y 1970au. Mae hyn yn cynnwys biliau ynni, bwyd, tanwydd a mwy. Yn y daflen hon rydym wedi ceisio cyfuno gwybodaeth am y cymorth ariannol sydd ar gael  i helpu llacio heriau costau byw sy'n wynebu llawer o deuluoedd lleol.**

Mae amrywiaeth o fesurau ar gael i helpu pobl i gynyddu eu hincwm i dalu am gostau byw hanfodol, fodd bynnag efallai nad yw bob amser yn rhwydd gwybod pa gymorth sydd ar gael neu sut i wneud cais ac fel canlyniad nid yw llawer o fudd-daliadau yn cael eu hawlio.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol eich bod yn derbyn popeth mae gennych hawl iddo. Holwch bob amser a chysylltwch â ni os ydych yn dal i gael trafferthion neu yn ansicr.

# Taliadau Cymorth y Llywodraeth

- Bydd llawer o aelwydydd yn derbyn cymorth costau newydd byw o Wanwyn 2023
- Caiff taliad costau byw o £900 ar gyfer pobl sy'n hawlio budd-daliadau y mae prawf modd arnynt ei wneud yn uniongyrchol i gyfrifon banc mewn tri thaliad dros y flwyddyn ariannol.

**Taliadau Costau Byw 2023 i 2024**

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y caiff mwy o daliadau Costau Byw eu gwneud rhwng gwanwyn 2023 a gwanwyn 2024. Y taliadau hyn yw:

- £301 ar gyfer pobl ar fudd-dal incwm isel cymwys, i gael ei dalu yn ystod gwanwyn 2023
- £150 ar gyfer pobl sydd ar fudd-dal anabledd cymwys, i gael ei dalu yn ystod haf 2023
- £300 ar gyfer pobl ar fudd-dal incwm isel cymwys, i gael ei dalu yn ystod hydref 2023
- £300 ar gyfer aelwydydd pensiynwyr, i gael ei dalu yn ystod gaeaf 2023 i 2024
- £299 ar gyfer pobl ar fudd-dal incwm isel cymwys, i gael ei dalu yng ngwanwyn 2024

Cyhoeddir mwy o wybodaeth pan fydd mwy o fanylion ar gael, yn cynnwys y dyddiadau cymhwyso. I gael mwy o fanylion ewch i **https://helpforhouseholds.campaign.gov.uk**

Dylai'r rhan fwyaf o bobl fod wedi derbyn Taliad Costau Byw 2022. Os oeddech yn gymwys, cewch eich talu yn awtomatig yn yr un ffordd ag y cewch eich budd-dal neu gredyd treth fel arfer. Mae hyn yn cynnwys os gwelir yn nes ymlaen eich bod yn gymwys am Daliad Costau Byw neu Daliad Costau Byw Anabledd.



# Help gyda Chostau Ynni

## Gwarant Prisiau Ynni

Mae'r argyfwng costau byw wedi gweld cynnydd enfawr mewn biliau ynni. Cyflenwadau tanwydd a chynnydd mewn chwyddiant yw achosion yr argyfwng presennol.

Mae argyfyngau'n mynd a dod, ond mae problem tlodi tanwydd yn parhau.

Mae mwy a mwy o bobl yn ei chael yn anodd canfod yr arian i dalu ymlaen llaw am eu tanwydd neu ynni. Mae'r aelwydydd hyn yn wynebu dewisiadau anodd. A ddylent fwyta bwyd twym, neu dwymo eu cartrefi?

## Y cam cyntaf yw'r un mwyaf pwysig

Cysylltwch gyda'ch cyflenwr. Gall fod yn anodd ceisio ymdopi gyda chyllid a rheoli cyfrif ynni, ond gall eich cyflenwr roi help llaw os ydych angen hynny os ydych yn:

- Pryderu am dalu eich biliau trydan neu nwy
- Ei chael yn anodd rhoi arian yn y mesurydd
- Angen cymorth tymor byr neu os yw'ch amgylchiadau wedi newid yn ddiweddar

Cysylltwch â'ch cyflenwr i weld sut y gallant helpu. Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gael, ond mae weithiau yn anodd gwybod beth yw hynny neu ble i ddechrau.

## Help gyda Chostau Ynni

Efallai y gall cwsmeriaid sydd mewn dyled i'w cyflenwr ynni gael help i'w dalu. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyflenwyr ynni yn gofyn i chi geisio cael cyngor yn gyntaf gan elusen gydnabyddedig sy'n rhoi cyngor ar ddyledion.

Mae'r cyflenwyr ynni a chyfleustodau dilynol yn cynnig grantiau i'w cwsmeriaid:

- Cronfa Cymorth Ynni Nwy Prydain/British Gas
- Cronfa Cwsmeriaid Ynni EDF
- Cronfa Ynni E.ON
- Cronfa Ynni Nesaf E.ON
- Cronfa 'Octo Assist' Octopus
- Cronfa Ynni Ovo
- Cronfa Caledi Scottish Power
- Gwasanaethau Blaenoriaeth Western Power Distribution

I gael mwy o help, cymorth a chyngor ewch i **https://helpforhouseholds.campaign.gov.uk**



## Help gyda Chostau Ynni

### Taliad Tanwydd Gaeaf

**Pwy sy'n gymwys?**
Pobl a gafodd eu geni cyn 25 Medi 1956.

**Faint fyddaf yn ei gael?**
£250 - £600 (yn amrywio yn dibynnu ar eich amgylchiadau).

**Sut fyddaf yn ei gael?**
Yn awtomatig, os ydych wedi ei gael o'r blaen. Caiff ei dalu'n syth i'ch cyfrif banc. Bydd angen i chi wneud hawliad os nad ydych wedi ei gael o'r blaen.

**Pryd fyddaf i yn ei gael?**
Gaeaf 2023/2024, os ydych wedi derbyn y taliad o'r blaen. Bydd angen i chi wneud hawliad os NAD ydych wedi ei dderbyn o'r blaen. I wneud cais, cliciwch ar y dilynol gan roi manylion  sut y gallwch wneud hawliad **https://www.gov.uk/winter-fuel-payment/how-to-claim**



## Gostyngiad Cartref Cynnes

**Pwy sy'n gymwys?**
Mae 2 ffordd i gymhwyso:

- Rydych yn cael elfen Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn
- Rydych ar incwm isel ac yn ateb meini prawf eich cyflenwr ynni ar gyfer y cynllun

**Faint fyddaf yn ei gael?**
£150

**Sut y byddaf yn ei gael?**
Mae'n ostyngiad unwaith-yn-unig ar eich bil trydan.
Mesuryddion blaendalu neu dalu-wrth-fynd – os yw eich cais yn llwyddiannus, gall eich cyflenwr ynni ddweud wrthych sut y byddwch yn derbyn y gostyngiad, er enghraifft, drwy daleb.

**Pryd fyddaf i yn ei gael?**
Os yw'ch cais yn llwyddiannus, bydd eich cyflenwr trydan yn rhoi'r gostyngiad ar eich bil erbyn 31 Mawrth 2023.

**I gael mwy o wybodaeth a manylion sut i gwneud cais**
Ewch i **https://www.gov.uk/the-warm-home-discount-scheme**
Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth i wneud cais. Cliciwch y ddolen i gael manylion amserau agor **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs**

## Help gyda Chostau Ynni

### Grant Cyn Lowyr

**Pwy sy'n gymwys?**
Cyn lowyr, neu eu partneriaid, neu weddwon, y dynodir eu bod yn neilltuol o fregus oherwydd eu bod ar incwm isel, yn byw yn eu cartrefi eu hunain ac yn gyfrifol am dalu am gostau ynni. Dim ond i'r dilynol mae ar gael:

- Rhai sydd â deg mlynedd o wasanaeth i'r diwydiant neu
- Y rhai mai'r diwydiant oedd eu man gwaith diwethaf

**Faint fyddaf i yn ei gael?**
£200. Dim ond un grant ar gael i bob aelwyd

**Sut mae gwneud cais?**
**Ewch i:** www.ciswo.org.uk **Ffonio:** 01506 635 550

Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth i wneud cais. Cliciwch ar y ddolen i gael manylion amserau agor **www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs**



## Help gyda Tai

# Budd-dal Tai

**Pwy sy’n gymwys?**
Gall Budd-dal Tai eich helpu i dalu eich rhent os ydych yn ddi-waith, ar incwm isel neu’n hawlio budd-dal. Mae’r Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno yn ei le.

Dim ond yn yr achosion dilynol y gallwch wneud hawliad newydd am Fudd-dal Tai:

- Eich bod wedi cyrraedd oed Pensiwn Gwladol
- Eich bod yn byw mewn tai â chymorth, tai gwarchod neu gartref dros dro

**Faint fyddaf yn ei gael?**
Efallai y gallwch gael help gyda’r cyfan neu ran o’ch rhent. bydd yn dibynnu ar:

- Eich rhent ‘cymwys’ neu Gyfradd Lwfans Tai Lleol
- Incwm eich aelwyd yn cynnwys budd-daliadau, pensiynau a chynilon (dros £6,000)

**Sut mae hawlio?**
Ewch i **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/benefits-council-tax-reduction-dhp/benefits-online/**
**Ffôn:** 01495 311556 **E-bost:** benefits@blaenau-gwent.gov.uk

# Gostyngiad Treth Gyngor

**Pwy sy'n gymwys?**
Gallech fod yn gymwys am Ostyngiad Treth Gyngor os ydych ar incwm isel neu'n derbyn rhai budd-daliadau ac yn atebol am dalu am dreth gyngor.

**Faint fyddaf yn ei gael?**
Bydd swm y Gostyngiad Treth Gyngor y gallech ei dderbyn yn dibynnu ar lawer o ffactorau:

- Pa fudd-daliadau a gewch
- Eich oed
- Eich incwm a chynilon
- Faint o Dreth Gyngor yr ydych yn ei thalu

**Sut mae hawlio?**
Ewch i **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/benefits-council-tax-reduction-dhp/benefits-online/**
**Cyswllt:** 01495 311556
**E-bost:** benefits@blaenau-gwent.gov.uk

# Taliad Disgresiwn at Gostau Tai

**Pwy sy'n gymwys?**
Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai neu Elfen Tai y Credyd Cynhwysol, ond yn dal i'w chael yn anodd i dalu eich rhent, gallwch wneud cais am Daliad Disgresiwn at Gostau Tai.

**Sut mae'n gweithio?**
Gallwch wneud cais am DHP i helpu talu eich rhent os:

- Ydych eisoes yn derbyn Budd-dal Tai.
- Yw eich Budd-dal Tai yn dal y rhent llawn llai unrhyw wasanaethau na fedrir talu Budd-dal Tai amdanynt tebyg i gostau gwresogi neu drethi dŵr.
- Os oes amgylchiadau arbennig sy'n golygu na fedrwch dalu'r gwahaniaeth rhwng eich budd-dal a'ch rhent llawn.

Caiff DHP eu rhoi fel mesur tymor byr i helpu pobl tra'u bod yn gwneud ymdrechion i ddatrys eu anawsterau.

**Sut mae gwneud cais?**

- **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/benefits-council-tax-reduction-dhp/benefits-online/** or:
- Cysylltu â'r Tîm Budd-dal Tai ar 01495 311556, neu
- E-bost: benefits@blaenau-gwent.gov.uk

## Credyd Cynhwysol

**Pwy sy'n gymwys?**
Efallai y gallech gael Credyd Cynhwysol os ydych ar incwm isel neu angen help gyda'ch costau byw. Gallech fod:

- Allan o waith
- Yn gweithio (yn cynnwys hunan-gyflogedig neu ran-amser)
- Yn methu gweithio, er enghraifft oherwydd cyflwr iechyd

**I hawlio mae'n rhaid i chi fod:**

- Yn byw yn y Deyrnas Unedig
- Yn 18 oed neu drosodd (mae rhai eithriadau)
- Fod dan oed Pensiwn Gwladol
- â £16,000 neu lai mewn arian, cynilion a buddsoddiadau.

**Faint fyddaf yn ei gael?**
Mae faint o Gredyd Cynhwysol y gallech ei gael yn dibynnu ar eich:

- Lwfans safonol
- Unrhyw symiau ychwanegol sy'n berthnasol i chi
- Unrhyw arian a dynnir oddi ar eich taliad

**Pryd y byddaf yn ei gael?**
Caiff ei dalu bob mis ac mae'n seiliedig ar eich amgylchiadau bob mis. I gael mwy o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/universal-credit**

## Y Banc Bwyd

Ymddiriedolaeth Trussell sy'n rhedeg y rhwydwaith mwyaf o fanciau bwyd ym Mhrydain, gan roi bwyd a chymorth i bobl mewn argyfwng.

Maent yn gweithio gydag asiantaethau lleol i gael yr help mwyaf addas ar gyfer amgylchiadau eich sefyllfa. I gael mwy o wybodaeth ewch i **https://www.trusselltrust.org/get-help/find-a-foodbank/blaenaugwent/**

**Sut y gallaf gael help?**
Gallwch ffonio neu anfon e-bost at y Banc Bwyd lle gallwch drafod eich sefyllfa a byddant yn eich rhoi mewn cysylltiad gyda'r asiantaeth leol berthnasol.

**Ffôn:** 07812 425130 **E-bost:** info@blaenaugwent.foodbank.org.uk

**Beth fyddaf yn ei gael?**
Lle'n briodol cewch Daleb Banc Bwyd. Bydd angen i chi fynd â'ch taleb Banc Bwyd at eich Canolfan Banc Bwyd agosaf. Mae rhestr o ganolfannau lleol ac amserau agor ar gael yma: **Locations | Blaenau Gwent Foodbank**.  Caiff eich taleb wedi ei chyfnewid am barsel o 3 diwrnod o fwyd argyfwng.

I gael mwy o wybodaeth ewch i **https://blaenaugwent.foodbank.org.uk/**

## Talebau Cychwyn Iach

Os ydych dros 10 wythnos yn feichiog neu â phlentyn dan 4 oed, efallai fod gennych hawl i help i brynu bwyd iach a llaeth. Os ydych yn gymwys, anfonir cerdyn Cychwyn Iach atoch gydag arian arno y gallwch ei ddefnyddio mewn rhai siopau. Caiff eich budd-dal ei ychwanegu at y cerdyn bob 4 wythnos.

**Gallwch ddefnyddio eich cerdyn i brynu:**
- Llaeth buwch hylif plaen
- Ffrwythau a llysiau ffres, wedi rhewi ac mewn tuniau
- Ffacbys ffres, wedi sychu ac mewn tuniau
- Llaeth fformiwla babanod yn seiliedig ar laeth buwch
- Fitaminau dechrau iach - mae'r rhain yn eich cefnogi yn ystod eich beichiogrwydd ac wrth fwydo ar y frest
- Diferion fitaminau ar gyfer babanod a phlant ifanc - ar gael o'r geni hyd at 4 oedom birth to 4 years old

**Pwy sy'n gymwys?**
Gallech fod yn gymwys os ydych yn derbyn:
- Credyd Cynhwysol, eich bod o leiaf 10 wythnos yn feichiog neu ag o leiaf un plentyn dan 4 oed
- Credyd Treth Plant, bod ag o leiaf un plentyn dan 4 oed, bod incwm blynyddol eich teulu yn £16,190 neu lai ac nad ydych yn cael Cymorth Incwm Credyd Treth Gwaith
- Lwfans Ceisiwr Swydd Seiliedig ar Incwm
- Credyd Pensiwn (sy'n cynnwys yr ychwanegiad plentyn)
- Ychwanegiad Credyd Treth Gwaith (a gaiff ei dalu am 4 wythnos ar ôl i chi ddechrau gweithio llai na 16 awr yr wythnos) ac nad ydych yn cael Credyd Treth Gwaith NEU

**Gallech hefyd fod yn gymwys os ydych o leiaf 10 wythnos yn feichiog a:**
- Dan 18 oed a heb fod yn cael unrhyw fudd-daliadau neu
- Yn cael Credyd Treth Plant a heb fod yn cael Credyd Treth Gwaith a bod eich incwm blynyddol yn llai na £16,90
- Yn cael lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) cysylltiedig ag incwm

**Sut mae gwneud cais?**
Ar-lein yn **https://www.healthystart.nhs.uk/how-to-apply/**
**Ffôn:** 0300 330 7010 **E-bost:** healthy.start@nhsbsa.nhs.uk
I gael mwy o wybodaeth ewch i **https://www.healthystart.nhs.uk/**

## Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent

Mae Partneriaeth Bwyd Blaenau Gwent yn bartneriaeth sy'n cydweithio i adeiladu system bwyd leol sy'n iach, fforddiadwy, cadarn a theg.

Mae llawer o fudiadau a chynlluniau ar draws Blaenau Gwent sy'n eich helpu i gael bwyd.

I gael mwy o wybodaeth am gael help gyda bwyd neu i ganfod Banc Bwyd yn agos atoch chi ewch i **https://bgfoodpartnership.co.uk neu https://www.facebook.com/groups/261062705859843/**

## Prydau Ysgol am Ddim

**Pwy sy'n gymwys?**
Efallai y gall eich plant gael prydau ysgol am ddim os ydych yn derbyn unrhyw un o'r dilynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisiwr Gwaith seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth seiliedig ar incwm
- Cymorth dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Credyd Treth Plant (gydag incwm blynyddol o lai na £16,190)
- Elfen gwarant Credyd Pensiwn
- Ychwanegiad Credyd Treth Gwaith - caiff ei dalu am 4 wythnos ar ôl i chi beidio bod yn gymwys am gredyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol gydag incwm aelwyd net o lai na
- £7,400 (£616.67 y mis)
- **Nid** oes gan deuluoedd sy'n derbyn Credyd Treth Gwaith hawl i brydau ysgol am ddim

**Sut mae gwneud cais?**
Nid oes raid i chi lenwi ffurflen arall os ydych yn derbyn Budd-dal Tai neu Ostyngiad Treth Gyngor. Cysylltwch â'r Adran Budd-daliadau os yw'ch plentyn yn dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf NEU os nad yw'ch plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim ond y credwch y dylent fod yn eu cael.

**Ffôn:** 01495 311556 **E-bost:** benefits@blaenau-gwent.gov.uk

## Grant Gwisg Ysgol

**Pwy sy'n gymwys?**

- Gall dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ar hyn o bryd wneud cais am y grant.
- **Nid** yw disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim oherwydd trefniadau diogelu pontio yn gymwys am y cyllid.
- Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal yn gymwys am y grant, p'un ai ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim ai peidio.
- Dim ond unwaith ar gyfer pob plentyn ym mhob blwyddyn ysgol y gall teuluoedd hawlio.

**Faint?**

£300 ar gyfer dysgwyr blwyddyn 7.  £225 fesul dysgwr ym mhob blwyddyn arall.

**Sut mae gwneud cais?**

Mae'r cynllun ar agor o 1 Gorffennaf 2022 ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2023.

Gwnewch gais ar-lein yn **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/schools-learning/school-uniform-grant** os:

- Yw eich plentyn yn gymwys am brydau ysgol am ddim ac
- Os nad yw eich plant wedi cael grant gwisg ysgol yn barod ar gyfer blwyddyn ysgol bresennol 2022/2023

I gael mwy o wybodaeth **E-bost:** benefits@blaenau-gwent.gov.uk neu **Ffôn:** 01495 311556



21 Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy, NP23 6DN

## Cynllun Cymorth Dyled Cronfa Cymorth Cwsmeriaid

Cynlluniwyd cynllun Cymorth Dyled Cronfa Cymorth Cwsmeriaid i helpu'r rhai sydd mewn caledi ariannol difrifol i glirio a'u helpu i ymdopi gyda'u taliadau.

**Pwy sy'n gymwys?**
**Gallech fod yn gymwys os:**

1. Yw eich cyfrif dŵr ar gyfer adeilad domestig lle'r ydych yn byw ar hyn o bryd.
2. Oes gennych ddyled o fwy na £150

**Sut mae'n gweithio?**

- Os yw eich cais yn llwyddiannus, bydd Dŵr Cymru yn llunio cynllun talu bob mis, bob bythefnos neu bob wythnos ar gyfer costau'r flwyddyn bresennol.
- Unwaith y byddwch wedi gwneud taliadau am 6 mis bydd Dŵr Cymru yn talu 50% o'ch dyled flaenorol.
- Os gwnewch daliadau am 6 mis arall, bydd Dŵr Cymru yn talu gweddill eich ôl-ddyledion blaenorol.

**Sut mae gwneud cais?**
Ewch i **https://www.dwrcymru.com/en/support-with-bills/customer-assistance-fund**

Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth i wneud cais. Cliciwch ar y ddolen i gael manylion amserau agor **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/**

# Taliadau Cymorth Arall

## Cynllun Cymorth Debyd Uniongyrchol Dŵr

Os ydych mewn caledi ariannol a bod gennych ddyled i Dŵr Cymru, efallai y gall y cynllun hwn eich helpu i dalu eich costau dŵr a dyled drwy eich budd-dal.

**Pwy sy'n gymwys?**
**Gallech fod yn gymwys os:**

1. Yw eich cyfrif dŵr am adeilad domestig lle'r ydych yn byw ar hyn o bryd.
2. Yw eich ôl-ddyled yn fwy na £15.
3. Ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau dilynol
    - Credyd Pensiwn
    - Credyd Cynhwysol
    - Cymhorthdal Incwm
    - Lwfans Ceisiwr Gwaith seiliedig ar incwm
    - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (seiliedig ar incwm)

**Sut mae'n gweithio?**
Mae Dŵr Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i gynnig y dewis i dalu eich costau dŵr drwy eich budd-dal. Mae hyn yn golygu:

- Dim colli taliadau
- Dim gweithredu i adennill
- Mae'n gyfleus gan yr aiff y taliad yn awtomatig o'ch budd-dal.

**Bydd Dŵr Cymru hefyd yn rhoi gostyngiad o £25 ar eich costau ar gyfer y flwyddyn gyfredol.**

**Sut mae gwneud cais?**
Ewch i **https://www.dwrcymru.com/en/support-with-bills/water-direct-scheme** If you need support applying, please visit one of our Community Hubs. Please click the link for details of opening times **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/**

# Taliadau Cymorth Arail

## Tariff HelpU

Mae tariff HelpU yn helpu aelwydydd incwm isel drwy roi cap ar faint y mae'n rhaid i chi ei dalu am eich dŵr.

**Pwy sy'n gymwys?**
**Gallech fod yn gymwys os:**

1. Yw eich cyfrif dŵr am eiddo domestig lle'r ydych yn byw ar hyn o bryd.
2. Yw incwm cyfunol blynyddol eich incwm ar neu dan y trothwy (1 person - £9,700, 2 berson - £14,600, 3+ person £16,100).
3. Yw rhywun yn yr aelwyd yn derbyn o leiaf un budd-dal y mae prawf modd arno:
    - Credyd Pensiwn
    - Budd-dal Tai
    - Credyd Cynhwysol
    - Credyd Treth Gwaith
    - Credyd Treth Plant (heblaw teuluoedd sy'n derbyn yr elfen deuluol yn unig)
    - Cymhorthdal Incwm
    - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cysylltiedig ag incwm
    - Lwfans Ceisiwr Gwaith (JSA) cysylltiedig ag incwm

**Sut mae'n gweithio?**
Os ydych yn gymwys bydd Dŵr Cymru yn rhoi cap ar eich bil dŵr fel na fyddwch yn talu dros swm neilltuol am y flwyddyn. Os oes gennych fesurydd dŵr, ni fyddwch byth yn talu mwy na'r swm rydych wedi ei ddefnyddio. Os yw eich defnydd yn is na swm cap HelpU, dim ond am faint o ddŵr yr ydych wedi'i ddefnyddio y cewch eich bilio.

**Faint fyddaf yn ei gael?**
Y tâl yw £266.47 (£114.98 am ddŵr, £151.49 am garthffosiaeth).

**Sut mae gwneud cais?**
Ewch i **https://www.dwrcymru.com/en/support-with-bills/helpu-tariff** Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth. Cliciwch y ddolen i gael manylion amserau agor **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/**

## Cap ar Filiau – Tariff WaterSure Cymru

Os oes gennych fesurydd yn barod, neu wedi gofyn am un, mae tariff Cap ar Filiau - WaterSure yn gosod cap ar y swm y mae'n rhaid i chi dalu am eich dŵr.

**Pwy sy'n gymwys?**
Mae'n rhaid i chi fod â mesurydd dŵr neu'n dewis cael mesurydd wedi ei osod. Mae'n rhaid i chi fod yn derbyn budd-dal sy'n cymhwyso a chredyd treth a naill ai â:

1. 3 neu fwy o blant dan 19 oed yn byw yn eich cartref y gallwch hawlio budd-dal plant ar eu cyfer.
2. Aelod o'ch aelwyd gyda chyflwr meddygol sydd angen defnydd sylweddol o ddŵr ychwanegol.

**Y buddion sy'n cymhwyso yw:**

- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Credyd Cynhwysol
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant (heblaw am deuluoedd sy'n derbyn yr elfen teulu yn unig)
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cysylltiedig ag incwm
- Lwfans Ceisiwr Gwaith (JSA) cysylltiedig ag incwm
- Lwfans Gweini (AA)
- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
- Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)

# Taliadau Cymorth Arall

**Mae'r cyflyrau meddygol yn gyflyrau cyffredin sydd angen swm sylweddol o ddŵr ychwanegol a gallant gynnwys:**

- Digeniad (clefyd croen haenog)
- Croen llidiog (ecsema, psoriasis, wlseriad faricos)
- Anatymalrwydd
- Stoma abdomen
- Clefyd Crohn
- Methiant arennau sydd angen dialysis cartref (heblaw lle mae'r awdurdod yn cyfrannu at gost y dialysis)

**Gallwch roi gwybodaeth yn eich cais os na chaiff ei gyflwr ei restru.**

**Sut mae'n gweithio?**
Bydd cap ar eich bil mesurydd blaenorol fel nad ydych yn talu dros swm penodol am y flwyddyn, faint bynnag yw eich gwir ddefnydd.

**Faint fyddaf i yn ei gael?**
Y tâl o 1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023 yw £374.01 (£157.50 am ddŵr, £216.52 am garthffosiaeth).

**Sut mae gwneud cais?**
Gellir argraffu ffurflen gais o wefan Dŵr Cymru a'i hanfon yn syth at Dŵr Cymru yn y post i asesu os ydych yn gymwys. Ewch i: **www.dwrcymru.com/en/support-with-bills/watersure-tariff**

Galwch heibio un o'n Hybiau Cymunedol os ydych angen cymorth i wneud cais. Cliciwch ar y ddolen i gael manylion amserau agor **www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs**

# Taliadau Cymorth Arail

## Cronfa Cymorth ar Ddisgresiwn

**Mae'r Gronfa Cymorth ar Ddisgresiwn yn rhoi 2 fath o grant nad oes angen i chi ei ad-dalu:**

- Taliad Cymorth Argyfwng (EAP)
- Taliad Cymorth Unigol (IAP)



# Taliadau Cymorth Arall

## Taliad Cymorth Argyfwng

**Pwy sy'n gymwys?**

- I fod yn gymwys am y grant hwn mae'n rhaid i chi:
- Fod mewn caledi ariannol, er enghraifft, wedi gwneud cais am fudd-daliadau ac yn aros am eich taliad cyntaf a heb arian i dalu am nwy a thrydan.
- Fod mewn sefyllfa argyfwng ac angen cymorth ariannol ar unwaith.
- Fod yn byw yng Nghymru,
- Fod dros 16 oed,
- Beidio bod ag arian arall, er enghraifft cynilon, ac wedi ystyried pob benthycydd cyfreithiol a chyfrifol tebyg i unedau credyd.

**Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r taliad?**

- Bwyd
- Nwy a thrydan
- Teithio argyfwng
- Dillad

**Faint fyddaf i yn ei gael?**
Mae'n dibynnu ar yr amgylchiadau.

**Sut fyddaf i yn ei gael?**

- Taleb PayPoint neu daliad BACS
- Talebau i'ch helpu i brynu dillad

**Pryd fyddaf i yn ei gael?**
Mae'n cymryd 24 awr i brosesu ceisiadau (a wneir rhwng dydd Llun a dydd Gwener). Os gwnewch gais ar ôl 12pm ar ddydd Gwener, ni chysylltir â chi tan y dydd Llun dilynol.

# Taliadau Cymorth Arall

## Taliad Cymorth Unigol

**Pwy sy'n gymwys?**
Mae'n rhaid i chi:

- Fod yn byw yng Nghymru
- Bod dros 16
- Peidio bod â mynediad i unrhyw arian arall ac wedi rhoi cynnig ar bob ffynhonnell fforddiadwy arall o gredyd, er enghraifft Undeb Credyd
- Peidio bod yn byw mewn cartref gofal (os na chewch ei rhyddhau mewn 6 wythnos)
- Peidio bod mewn carchar (os na chewch eich rhyddhau mewn 6 wythnos)
- Beidio bod yn aelod o urdd grefyddol a gynhelir yn llawn

**Rhaid i chi hefyd fod yn cael un o'r dilynol:**

- Elfen Gwarant Credyd y Credyd Pensiwn
- Credyd Cynhwysol
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisiwr Swydd seiliedig ar incwm

**Mae'n rhaid i chi gyflawni un o'r dilynol:**

- Rydych yn gadael cartref gofal neu sefydliad (ysbyty, carchar neu ofal maeth) ar ô (o leiaf 3 mis) i fyw'n annibynnol
- Mae'n rhaid i chi fod eisiau aros i fyw yn y gymuned yn hytrach na gorfod mynd i sefydliad (ysbyty neu gartref gofal).
- Rydych yn sefydlu cartref ar ôl ffordd o fyw ansefydlog.
- Mae angen i chi symud cartref yn gyflym oherwydd chwalfa perthynas neu drais domestig.
- Gofalu am garcharor neu droseddwr ifanc a gafodd ei ryddhau ar drwydded dros dro.

**Faint fyddaf i yn ei gael?**
'Nwyddau gwyn' eraill tebyg i oergell, ffwrn neu beiriant golchi gan AO Retail Cyf/ Celfi cartref tebyg i welyau, soffas a chadeiriau gan The Furnishings Service (TFS).

**Pryd fyddaf yn ei gael?**
Bydd yn cymryd 10 diwrnod gwaith i brosesu ceisiadau. Os caiff eich cais ei gymeradwyo byddwch yn cael galwad ffôn, neges testun neu e-bost gan y cyflenwr i drefnu dosbarthu.

**You cannot apply for a grant if you have:**

- Eisoes wedi derbyn grant yn y 28 diwrnod diwethaf
- Eisoes wedi derbyn 3 grant yn y flwyddyn ddiwethaf (5 grant yn cynnwys ceisiadau coronafeirws)

**How Do I apply?**

- **https://gov.wales/discretionary-assistance-fund-daf/how-apply**
- Galwch heibio un o'n hybiau cymunedol i cael cymorth i wneud cais. Cliciwch y ddolen ddilynol i gael manylion amserau agor **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/**
- Ffonio 0800 859 5924 rhwng 9:30am - 4:00pm Dydd Llun to Dydd Gwener
- Drwy'r post



# Cymorth a Chyngor Arall

## Money Saving Expert

Mae gan MoneySavingExpert.com, y wefan a sefydlwyd gan Martin Lewis, ddewis eang o help a chyngor **https://www.moneysavingexpert.com/**

Llofnodwch i dderbyn cylchlythyr wythnosol am ddim yn cynnwys yr holl gynghorion ac awgrymiadau diweddaraf **www.moneysavingexpert.com/latesttip**

## Cyngor ar Bopeth

Gall fod yn anodd delio gyda phroblemau arian, ond os nad ydych yn deall sut mae pethau fel credyd neu forgeisiau yn gweithio, gallech fod ar eich colled yn ariannol neu fynd yn ddwfn i ddyled.

Gall Cyngor ar Bopeth roi'r wybodaeth rydych ei hangen i wneud y dewisiadau cywir. I gael mwy o wybodaeth ewch i: **www.citizensadvice.org.uk/wales/debt-and-money**

## Money Helper

Mae MoneyHelper ar agor i bawb a gall helpu pobl i glirio eu dyledion, gostwng gwariant a gwneud y gorau o'u hincwm.

Maent yn rhoi cyngor di-duedd ac am ddim ar arian ac os nad ydyn nhw'n gwybod yr ateb, fe wnânt eich rhoi ar ben y ffordd i siarad gyda rhywun. **www.moneyhelper.org.uk/en/contact-us/money-guidance**

## Undebau Credyd, cynilion a benthyciadau cymunedol lleol

Mae undebau credyd yn cynnig dewis heblaw banciau a chymdeithasau adeiladu traddodiadol ar gyfer cynilo a benthyca. Gallant weithiau fod â chyfraddau gwell na'r stryd fawr. Mae undeb credyd yn ddarparydd cynilion a benthyciadau cymunedol. I gael gwybod mwy am undebau credyd ewch i: **www.moneysavingexpert.com/ loans/credit-unions**

# Cymorth a Chyngor Arall

## Cyngor Age Cymru

Mae Cyngor Age Cymru yn cynnig gwasanaeth cymorth am ddim, cyfrinachol a diduedd. Gallant helpu pobl hŷn, eu teuluoedd, ffrindiau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol gyda gwybodaeth a chyngor ar faterion sy'n effeithio ar bobl hŷn.

I ganfod mwy ffoniwch **0300 303 398** rhwng 9:00am a 4:00pm, dydd Llun i ddydd Gwener neu anfon e-bost at **advice@agecymru.org.uk**

## Gofal a Thrwsio

Mae Gofal a Thrwsio yn rhoi gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau ymarferol sy'n helpu pobl hŷn yng Nghymru i aros yn ddiogel, cynnes ac iach yn eu cartrefi eu hunain. Maent yn gosod offer ac addasiadau anabledd, yn cyflenwi gwasanaethau cynnal a chadw cartrefi, yn helpu i gynyddu incwm a chael grantiau, a gwneud cartrefi yn ddiogel i ddychwelyd iddynt o ysbyty.

I ganfod mwy, ffoniwch **0300 111 3333** Croesawir galwadau yn Gymraeg. Hyd yn oed os na chredwch eich bod yn gymwys fel arfer am gymorth ariannol, gallech yn awr fod yn gymwys gyda help gyda chostau byw dydd i ddydd.

## Cymru Gynnes

Cymorth a chyngor i unrhyw un sy'n edrych am wybodaeth neu help gydag ymholiadau am ynni cartref. **https://www.warmwales.org.uk/**

## Nyth Cymru

Mae Nyth Cymru yn cynnig gwelliannau effeithiolrwydd ynni cartref am ddim tebyg i foeler newydd, gwres canolog neu insiwleiddiad i breswylwyr cymwys. Ewch i wefan Nest Wales neu ffonio **0808 808 2244.**

# Amserau Agor Hybiau Cymunedol:

## Llyfrgell Abertyleri
9am - 5pm (Dyddiau Mawrth, Iau a Gwener) **Ar gau:** 1pm - 2pm
10am - 5pm (Dyddiau Mercher) **Ar gau:** 1pm - 2pm

## Llyfrgell Brynmawr
9am - 5pm (Dyddiau Llun, Mawrth, Iau a Gwener)
**Ar gau:** 1pm - 2pm

## Llyfrgell Glynebwy
9am - 5pm (Dyddiau Llun, Mawrth, Iau a Gwener)
**Ar gau:** 1pm - 2pm

## Llyfrgell Tredegar
9am - 5pm (Dyddiau Llun, Mawrth a Gwener) **Ar gau:** 1pm - 2pm
10am - 5pm (Dyddiau Mercher) **Ar gau:** 1pm - 2pm

## Llyfrgell Blaenau
9:30am - 5pm (Dyddiau Llun) **Ar gau:** 1pm - 2pm

## Llyfrgell Cwm
9:30am - 5pm (Dyddiau Iau) **Ar gau:** 1pm - 2pm

## Sefydliad Llanhiledd
10am - 5pm (Dyddiau Mercher) **Ar gau:** 1pm - 2pm

Ewch i: **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/blaenau-gwent-community-hubs/**


**Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**
Swyddfeydd Cyffredinol
Heol Gwaith Dur
Glynebwy
NP23 6DN

**Ffôn:** 01495 311556
**Gwefab:** www.blaenau-gwent.gov.uk


Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council